

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ

Rob Thomas
Prif Weithredwr
Swyddfeydd Dinesig
Cyngor Bro Morgannwg
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: 5514A2026

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Annwyl Rob

Cyngor Bro Morgannwg: Adolygiad Dilynol Balansau Ysgolion

Yn y llythyr hwn, nodwyd cefndir ein hadolygiad dilynol, ein casgliad cyffredinol, canfyddiadau, argymhellion, a'r camau nesaf.

Fe wnaethom gyfarfod â swyddogion ar 2 Medi i siarad â'n canfyddiadau.

Cefndir

Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddwyd ein hadroddiad: Cyngor Bro Morgannwg: Balansau Ysgolion. Edrychodd yr archwiliad hwnnw ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi a herio ysgolion â chyllidebau diffyg. Ar y pryd, gwelsom fod y Cyngor yn cefnogi ac yn herio ei ysgolion ar eu diffygion, ond roedd rhywfaint o weithgaredd yn dal yn newydd ac nid oedd eto yn cael yr effaith a fwriadwyd. Canfuom fod angen goruchwyliaeth gryfach ar y Cyngor o weithgarwch adferiad, cynllunio adferiad, ymyrraeth, adrodd ariannol a risg, a dysgu o rywle arall.

O ystyried bod sefyllfa ddiffyg ysgolion yn peri risg i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor, roeddem am gael asesiad cynnar o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion o'n harchwiliad blaenorol. Ystyriodd yr archwiliad dilynol hwn: **A yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd effeithiol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'n harchwiliad balansau ysgolion 2025?**

Fe wnaethom adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion, ac arsylwi trefniadau monitro'r Cyngor. Ein dyddiad cau tystiolaeth oedd 12 Awst 2026. Gan fod llawer o drefniadau wedi'u cyflwyno neu eu cryfhau yn ystod 2026, fe wnaethom asesu cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol yn hytrach na'u heffaith ar ddiffygion ysgolion gan ei bod yn rhy gynnar i bennu eu heffaith.

Casgliad cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau'r ffordd y mae'n rheoli diffygion ysgolion, ond mae'n rhy gynnar i wybod a yw'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth cynaliadwy.

Mae gan y Cyngor bellach:

- goruchwyliaeth uwch swyddogion ac aelodau cryfach;
- dull mwy cydgyssylltiedig ar draws gwasanaethau perthnasol;
- gwell monitro, rhagfynegi a chynllunio adfer;
- cefnogaeth a her fwy rheolaidd i ysgolion; ac
- adrodd cliriach o ddiffygion ysgol fel risg ariannol gorfforaethol.

Gwelsom fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da yn erbyn ein hargymhellion blaenorol, ond mae angen gwaith pellach ar ddwysáu ac ymyrryd. Mae gan y Cyngor broses ddwysáu, ond dylai fod yn gliriach ynghylch pryd y gallai fod angen gweithredu ffurfiol a sut y byddai pwerau ffurfiol yn cael eu defnyddio. Byddai bod yn glir ynglŷn â rolau, a gwneud penderfyniadau yn helpu pawb i ddeall disgwyliadau a lleihau'r risg o herio.

Cododd diffygion ysgolion o £4.1 miliwn yn 2024-25 i £10.8 miliwn ym mis Mawrth 2026 a rhagwelir y bydd yn cyrraedd £22 miliwn erbyn 2029. Mae hon yn sefyllfa well na'r diffyg o £43.9m yr oedd y Cyngor yn ei ragweld yn gynharach eleni. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn fwy na chronfeydd wrth gefn y Cyngor ac yn peri risg sylweddol i'w gynaliadwyedd ariannol. Felly, rhaid i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar barhau i leihau diffygion ysgolion. Byddwn yn monitro cynnydd trwy ein gwaith archwilio arferol a'n cyfarfodydd cyswllt.

Yr hyn a ganfuom

Mae llywodraethu, monitro ac adrodd wedi gwella

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull mwy cydgysylltiedig sy'n cynnwys cyllid, addysg, adnoddau dynol, gwella ysgolion, a gwasanaethau cynhwysiant. Mae gan uwch swyddogion ac aelodau bellach farn gliriach o ddiffygion ysgolion, gweithgarwch adfer, a'r risgiau ariannol ehangach.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno monitro mwy strwythuredig trwy ragolygon ariannol, adolygiadau cynlluniau adfer, graddfeydd risg, cofrestr diffyg, a chyfarfodydd adolygu rheolaidd. Mae diffygion ysgolion hefyd yn cael eu hadrodd yn gliriach trwy drefniadau cyllideb, perfformiad a risg corfforaethol.

Dylai'r newidiadau hyn helpu'r Cyngor i adnabod problemau yn gynharach a thargedu cefnogaeth yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i wybod a yw camau gweithredu yn lleihau diffygion yn gynaliadwy.

Mae cynllunio adfer yn fwy strwythuredig, ond mae angen rhagor o waith

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno templedi cynllun adfer, dyddiadau cau, adolygiadau ac adborth cliriach. Mae ysgolion hefyd yn derbyn cefnogaeth fwy cydgysylltiedig gan wasanaethau'r Cyngor perthnasol.

Roedd pob ysgol a oedd angen paratoi cynllun adfer wedi cyflwyno un erbyn dyddiad cau'r Cyngor. Er bod angen diwygio ac ailgyflwyno rhai o'r cynlluniau hyn. Felly, ni ellir sicrhau bod pob cynllun yn darparu llwybr realistig a chyflawnadwy yn ôl i gynaliadwyedd ariannol.

Mae angen i drefniadau ymyrraeth fod yn gliriach

Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth ariannol, adolygiadau cynllun adfer, graddfeydd risg, a barn broffesiynol i nodi ysgolion sydd angen mwy o gefnogaeth neu her. Mae hefyd wedi datblygu proses ddwysáu gyffredinol. Fodd bynnag, mae hyn ar hyn o bryd yn lefel eithaf uchel. Rydym yn cydnabod bod angen hyblygrwydd i ystyried ystod o ffactorau sy'n berthnasol i ysgolion unigol. Ond byddai'r Cyngor yn elwa o ddarparu mwy o fanylion am y broses. Er enghraifft, i nodi disgwyliadau a chyfrifoldebau ar gyfer ysgolion, cyrff llywodraethu a'r Cyngor. Gallai hefyd esbonio sut mae:

- ysgolion yn symud trwy wahanol gamau o ddwysáu,
- gwybodaeth fel risg, tystiolaeth a chynnydd yn yr ysgol yn cael ei hystyried,
- penderfyniadau yn cael eu gwneud a'u cofnodi, a
- sut mae cysondeb a thegwch yn cael eu dangos ar draws ysgolion.

Byddai hyn yn helpu swyddogion, aelodau ac ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o sut mae'r broses ddwysáu yn gweithio yn ymarferol. Byddai hefyd yn egluro beth y gellir ei ddisgwyl ym mhob cam o'r broses. Byddai hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau cyson ac yn lleihau'r risg o her.

Dysgu oddi wrth eraill

Mae'r Cyngor wedi ceisio dysgu o'r tu allan i'r sefydliad i ddeall sut mae cynghorau eraill yn rheoli diffygion ysgolion. Fodd bynnag, ni all y Cyngor ddangos eto sut mae'r dysgu hwn yn gyrru gwelliant.

Argymhellion

O ganlyniad i'r adolygiad dilynol hwn, rydym wedi gwneud dau argymhelliad newydd. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr argymhellion a wnaethom yn yr archwiliad gwreiddiol.

Argymhelliad 1: Egluro trefniadau cynyddu ac ymyrraeth

Dylai'r Cyngor gryfhau ei broses ddwysáu ar gyfer ysgolion sydd â chyllidebau diffyg.

Dylai'r Cyngor ddarparu manylion ychwanegol fel ei fod yn gwneud mwy na nodi camau eang y broses. Byddai esboniad pellach o sut mae penderfyniadau'n cael eu llywio, eu hadolygu a'u cymhwyso yn ymarferol yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gliriach a mwy cyson o drefniadau cynyddu ymhlith yr holl randdeiliaid.

Argymhelliad 2: Adolygu a yw'r trefniadau'n gweithio

Dylai'r Cyngor adolygu a yw ei gamau gweithredu yn lleihau diffygion ysgolion a gwella cynaliadwyedd ariannol. Dylai'r adolygiad nodi beth sy'n gweithio, beth sydd ddim, a lle mae angen gwelliannau.

Camau nesaf

Byddwn yn monitro sefyllfa balansau ysgolion a chynaliadwyedd ariannol y Cyngor dros y 12 mis nesaf trwy ein gwaith archwilio arferol.

Hoffem ddiolch i swyddogion y Cyngor am eu cymorth yn ystod yr archwiliad.

Yn gywir

Gary Emery
Cyfarwyddwr Archwilio
Archwilio Cymru